Pecyn Cyhoeddus

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 7 Ionawr 2025**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 9 Ionawr 2025. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 16 Ionawr 2025 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 17 Ionawr 2025.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Euros Davies, Gethin Davies, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Hugh Hughes, Chris James, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein ac Ann Bowen Morgan.

(10.00am- 11.17am)

126 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

127 Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

i. Estynnwyd cydymdeimlad i deulu'r cyn-Gynghorydd Sir Haydn Lewis a fu farw yn ddiweddar.
ii. Estynnwyd llongyfarchiadau i bawb a fu'n rhan o gyngerdd Gwasanaeth Cerdd Ceredigion a gynhaliwyd yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn ddiweddar.
iii. Estynnwyd llongyfarchiadau i Michael Austin Taylor, Cadeirydd Ymddiriedolwyr y Ganolfan Technoleg Amgen sydd wedi'i urddo yn Aelod o Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (MBE) am wasanaethau i elusen ac arloesedd.
iv. Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i David John James, Ysgrifennydd, Cymdeithas Bowlio Sir Ceredigion ar dderbyn Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM) am wasanaeth gwirfoddol.
v. Estynnwyd dymuniadau gorau i bawb yn Ysgol Dyffryn Aeron a agorodd yr wythnos hon. Bydd agoriad swyddogol yn cael ei gynnal yn fuan.

128 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol/ buddiannau sy'n rhagfarnu.

129 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2024 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

130 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd
Dim.

131 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu
Dim.

132 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda
Dim.

133 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol ynghylch Polisi Diogelwch Gwybodaeth gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
PENDERFYNIAD:
i. I gymeradwyo a mabwysiadu'r polisi sydd wedi'i ddiweddaru.
ii. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Er mwyn sicrhau llywodraethiant effeithiol.

134 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol ynghylch Polisi ar ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
PENDERFYNIAD:
i. I gymeradwyo a mabwysiadu'r Polisi Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol.
ii. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Er mwyn sicrhau llywodraethiant effeithiol.

135 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Adroddiad Hunanasesu Cyngor Sir Ceredigion 2023/24
PENDERFYNIAD:
i. Cymeradwyo Adroddiad Hunanasesu 2023/24 gan gynnwys y Adolygiad Blynyddol o'r Amcanion Perfformiad a Llesiant.
ii. Cymeradwyo y bydd yr Amcanion Llesiant Corfforaethol yn parhau heb eu newid ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Sicrhau y cydymffurfir â Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 / Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

136 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch Ymgynghoriad Cyhoeddus ynghylch Arfarniadau a Chynlluniau Rheoli'r Ardaloedd Cadwraeth
PENDERFYNIAD:
Argymell i'r Cyngor fod Arfarniadau a Chynlluniau Rheoli'r Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu rhyddhau i'r cyhoedd er mwyn ymgynghori arnynt.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Sicrhau bod Arfarniadau a Chynlluniau Rheoli'r Ardaloedd Cadwraeth yn destun ymgynghori cyhoeddus cyn ceisio'u mabwysiadu yn Ganllawiau Cynllunio Atodol.

137 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet
Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2025

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol